



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Cyffredin - Gwybodaeth angenrheidiol am y Benthyciadau Arbed Tenantiaeth

Beth yw'r cynllun Benthyciadau Arbed Tenantiaeth?

Mae'n gynllun benthyciadau ar gyfer tenantiaid sydd ag ôl-ddyledion rhent, neu sydd mewn perygl o gronni ôl-ddyledion rhent. Gall tenantiaid wneud cais am fenthyciad i dalu'r ôl-ddyledion hyn, ac fe fydd y benthyciad yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'w landlord neu asiant.

Pam fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cynllun hwn?

Rydym yn cyflwyno'r cynllun oherwydd bod tenantiaid - nifer heb fynediad at fudd-daliadau tai - wedi gweld gostyngiad yn eu hincwm yn sgil Covid-19, ac mae hynny wedi effeithio ar eu gallu i dalu eu rhent.

Pryd fydd y cynllun yn cychwyn?

Rydym yn anelu i ddechrau'r cynllun fis Medi.

Faint gall tenantiaid ei fenthycy?

Nid oes uchafswm ar y swm y gall tenant ei fenthycy, ond bydd angen i ad-daliadau'r benthyciad fod yn fforddiadwy, a gall y swm ond gwmpasu unrhyw ôl-ddyledion a gronnwyd ers 1 Mawrth.

Pam nad yw hwn yn fenthyciad i landlordiaid?

Fe wnaethom ystyried hyn, ond nid yw darparu benthyciad i landlord o reidrwydd yn dileu'r bygythiad i denant gael ei droi allan o'i gartref. Byddai'r tenant yn parhau i fod ag ôl-ddyledion rhent i'r landlord.

I bwy fydd yr arian yn cael ei dalu? Y tenant neu'r landlord / asiant?

Y landlord neu'r asiant. Mae'r benthyciad hwn ar gyfer ôl-ddyledion rhent yn unig, neu ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol pan fydd tenant o bosib yn cael trafferth talu rhent. Byddai talu yn uniongyrchol i'r landlord neu asiant yn darparu sicrwydd y bydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

yr ôl-ddyledion rhent yn cael eu talu, ac yn cael gwared â'r bygythiad i'r tenant o gael ei droi allan am ôl-ddyledion rhent.

Pwy fydd yn cynnal y cynllun?

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar ein opsiynau o ran partneriaid cyflawni. Bydd angen iddynt fod yn ddarparwyr sy'n medru darparu benthyciadau a chynnig lefel o gymorth ychwanegol i denantiaid.

A fyddai modd i'r landlord droi'r tenant allan beth bynnag ar ôl derbyn y benthyciad?

Bydd y taliad yn golygu nad oes modd i'r landlord droi rhywun allan am ôl-ddyledion rhent difrifol.

Beth fydd yn digwydd os na all y tenant ad-dalu'r benthyciad?

Byddem yn disgwyl i ddarparwr y benthyciad ddangos cydymdeimlad â sefyllfa'r tenant, a pheidio â dilyn camau ffurfiol i adennill y benthyciad dyledus oni bai bod pob opsiwn arall wedi methu. Ni fydd y landlord yn cael ei effeithio gan unrhyw ddyled rhwng y tenant a'r darparwr.

Sut all tenantiaid wneud cais am y cynllun?

Drwy amrywiol ffyrdd. Gellid eu hatgyfeirio drwy ein cynllun Rhybudd Cynnar, neu drwy eu hawdurdod lleol. Gallant hefyd fynd yn uniongyrchol at ddarparwr y cynllun.

Ble fedraf i gael rhagor o wybodaeth?

Bydd rhagor o fanylion am y cynllun ar gael ym mwletinau Rhentu Doeth Cymru yn y dyfodol.